Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Bwrdd Rheoli

**Cofnodion cyfarfod 16 Ionawr 2012**
**14.00-16.00, Ystafell Gynadledda 4B**

**Yn bresennol:**
Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)
Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)
Keith Bush (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)
Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)
Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)
Sulafa Thomas (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)
Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)
Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)
Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)
Craig Stephenson (Pennaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau)
Sian Wilkins (Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth)
Helen Finlayson (Ysgrifenyddiaeth)
Lynne Flux (Pennaeth Archwilio Mewnol) – eitem 6
Ross Davies (Rheolwr Cydraddoldeb) – eitem 6
Mike Snook (Pennaeth Adnoddau Dynol) – eitem 9

## 1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Connie Cockburn (Pennaeth yr Adran Ystadau a TGCh). Yn aelod o dîm negodi tâl Ochr yr Undebau Llafur, fe wnaeth Craig Stephenson ddatgan buddiant mewn perthynas ag eitem 9.

## 2.0 Cyfathrebu â staff

2.1 Adrian Crompton i lunio nodyn ar drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.

## 3.0 Cofnodion cyfarfod 3 Tachwedd 2011

3.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

**Materion yn codi**

**3.2 Nid oedd materion yn codi o'r cyfarfod.**

**Materion busnes**

**4.0 Heriau allanol i wasanaethau'r Cynulliad**

**4.1 Bu i Benaethiaid y Gwasanaethau a'r Cyfarwyddwyr roi crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn y sesiynau heriau allanol yn ystod yr haf, a'r pethau a wnaed yn wahanol o ganlyniad. Dyma rai o'r themâu allweddol:**

- **pwysigrwydd gwerthuso a, hyd y gellir, adnabod llwyddiant a'r graddau yr awn i'w gyflawni;**
- **ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad a phwyllgorau gan ddeall eu blaenoriaethau a'u gofynion, a'r graddau rydym ni'n bodloni'r rhain;**
- **sut mae cael cydbwysedd rhwng cynllunio tymor byr a thymor hir ar gyfer y sefydliad;**
- **sut mae cynnal pwysau i ysgogi effeithlonrwydd a pherfformiad;**
- **pwysigrwydd ailedrych ar syniadau a dulliau sefydledig i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas; a**
- **phwysigrwydd sgiliau unigolion i'r sefydliad, a phwysigrwydd dealltwriaeth staff yn unigol o'r modd y maen nhw'n cyfrannu at amcanion cyffredinol y sefydliad.**

**4.2 Cytunodd y Bwrdd y bu'r broses heriau allanol yn werthfawr, er bod modd ystyried nifer o ffyrdd i wella'r broses. Cytunwyd y dylid ailadrodd y broses heriau allanol, a'i chysylltu â phroses gynllunio'r gwasanaeth, yn ôl pob tebyg, ond ni ddylid ei chynnal o reidrwydd mor rheolaidd ag unwaith y flwyddyn.**

4.3 Bu i’r Bwrdd ddiolch i Benaethiaid y Gwasanaethau am eu gwaith  ar y broses heriau allanol, ac i Mair Barnes, Tim Knighton, Robert Pickard, Richard Calvert, Conan McKenna a Philippa Tudor am eu hamser, eu hymdrech a’u craffter.

Papurau drafft y Comisiwn

5.0 Cryfhau trefniadau llywodraethu

5.1 Trafododd y Bwrdd ddiben y papur o ran amlinellu trefniadau llywodraethu’r Cynulliad a’r gwaith a oedd yn mynd rhagddo i’w hatgyfnerthu. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid tynnu’r papur oddi ar agenda’r Comisiwn ar 2 Chwefror, er y byddai crynodeb o’r sesiynau heriau allanol yn cael ei gynnwys yn adroddiad y Bwrdd Rheoli i’r Comisiwn. Byddai materion llywodraethu penodol i’w hystyried yn cael eu hychwanegu at y rhaglen dreigl hefyd. Papur dewisiadau polisi ar Ryddid Gwybodaeth fydd y cyntaf o’r rhain. Yn ogystal, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Richard Calvert, yn cael ei wahodd i un o gyfarfodydd y Comisiwn i sôn am ein safonau llywodraethu, a bydd hynny, yn ôl pob tebyg, yn gysylltiedig ag adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio.

6.0 Cynllun cydraddoldeb strategol 2012-16

6.1 Nododd y Bwrdd fod Penaethiaid y Gwasanaethau wedi bod yn ymwneud â datblygiad y strategaeth ac, yn benodol, â’r cynllun gweithredu i sicrhau bod modd darparu’r cynnwys yn unol â’r amserlen arfaethedig. Cafodd y Bwrdd drafodaeth ar yr angen am eglurder ar ba gamau gweithredu sy’n newydd a pha rai sydd ar waith eisoes.

6.2 Bu i’r Bwrdd ddiolch i Ross Davies a Lynne Flux am weithio ac ymgynghori’n drylwyr wrth baratoi a datblygu’r strategaeth a’r cynllun gweithredu.

7.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am Deddfwriaeth Cymru Ar-lein

**7.1 Ystyriodd y Bwrdd y dewisiadau yn y papur, a gwnaeth gais y dylai'r drafft terfynol nodi'r dewisiadau argymelledig a rheswm dros hynny.**

8.0 Adolygu effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad

8.1 Cytunodd y Comisiwn yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Mehefin 2011 ar ei egwyddorion llywodraethu a'i ddarpariaethau i gefnogi hyn, sy'n cynnwys gofyn am adolygu ei effeithiolrwydd fel bwrdd llywodraethu'r sefydliad. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu hymgorffori yn y datganiad llywodraethu newydd, a ddefnyddir bellach yn lle'r datganiad rheolaeth fewnol. Bu i'r Bwrdd drafod y dull a'r fethodoleg a argymhellwyd. Cytunwyd y dylid diwygio'r papur i'w gwneud yn fwy eglur mai effeithiolrwydd y Comisiwn yn Fwrdd a gaiff ei adolygu, yn hytrach na'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.

9.0 Strategaeth gwobrwyo staff y Cynulliad

9.1 Nododd y Bwrdd bod Ochr yr Undebau Llafur yn cynnal arolwg o gyflog ei haelodau, a bod disgwyl iddi wneud cais yn ymwneud â thâl. Trafododd y Bwrdd y materion yr oedd angen arweiniad arnynt gan y Comisiwn, gan ofyn am ailddrafftio'r papur i adlewyrchu hyn.

Dod â'r cyfarfod i ben

Unrhyw fater arall

9.2 Cafwyd proses sifftio ar gyfer y swydd cyfarwyddwr TGCh. Bydd trafodaethau rhanddeiliaid, sesiynau adborth a chyfweliadau paneli ffurfiol yn digwydd ar 26 a 27 Ionawr.

10.0 Agenda'r cyfarfod nesaf

10.1 Claire a'r cyfarwyddwyr i gytuno ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Ysgrifenyddiaeth
Ionawr 2011